Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person ar gyfer

Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant ym maes Meddygaeth iechyd y cyhoedd

Adran 1 – Manylion y Swydd

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant, Meddygaeth iechyd y cyhoedd

Yn atebol i: Pennaeth yr Ysgol Arbenigedd ar gyfer Meddygaeth iechyd y cyhoedd

Hyd: 3 blynedd yn amodol ar adolygiad blynyddol boddhaol a chytundeb Pennaeth yr Ysgol a'r Deon Ôl-raddedig.

Dyddiad y bydd y swydd ar gael: 01.04.2022

Tâl: 1 sesiwn

Gwybodaeth ychwanegol:
Rôl i'w phenodi drwy gyfweliad strwythuredig a gynhelir gan Bennaeth yr Ysgol a chynrychiolwyr ychwanegol yn ôl yr angen.
Bydd pob Cyfarwyddwr Rhaglen yn cael adolygiad blynyddol a gaiff ei gynnal gan Bennaeth yr Ysgol, neu ei gynrychiolydd enwebedig.

Adran 2 – Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Prif Bwrpas y Swydd:

Mae pob Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant yn atebol i Bennaeth yr Ysgol a'r Deon Ôl-raddedig. Bydd ef/hi yn cysylltu â'r Deon Ôl-raddedig, Pennaeth yr Ysgol, staff AaGIC a'u Coleg Brenhinol perthnasol i sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant o ansawdd uchel yn cael eu darparu sy'n bodloni'r cwricwlwm a bennwyd gan y Coleg Brenhinol ac a gymeradwywyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'n hanfodol eu bod yn cydnabod eu cyfrifoldebau statudol fel y'u diffinnir yn yr Arweiniad i Hyfforddiant Arbenigedd Ôl-raddedig yn y DU. (Y ***"Canllaw Aur"***).

Dylai Cyfarwyddwyr Rhaglenni Hyfforddiant ddangos ymrwymiad parhaus i ddarparu hyfforddiant cynaliadwy o ansawdd uchel a fydd yn denu ac yn cadw hyfforddeion o'r safon uchaf.

Arweinyddiaeth
Gweithio gyda Phennaeth yr Ysgol ac AaGIC i wneud y canlynol:

1. Darparu arweinyddiaeth ym maes addysg a darparu hyfforddiant sy'n cyd-fynd â gofynion AaGIC a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gan weithio'n agos â strwythurau ledled Cymru (gan gynnwys Arweinwyr Cyfadrannau, Ysgolion Arbenigedd a Chyfarwyddwyr Rhaglenni Hyfforddiant).
2. Gweithio ar ran AaGIC, gan ddarparu cyngor arbenigol ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â'r arbenigedd.
3. Gweithio gyda grwpiau a rhanddeiliaid allweddol, mynychu a chynnal digwyddiadau ar draws y rhanbarthau, datblygu cysylltiadau allweddol a sicrhau ymgysylltiad ac ymatebolrwydd lleol effeithiol yn unol â diwylliant AaGIC.
4. Adolygu sut mae timau gofal iechyd amlbroffesiwn yn rhyngweithio ac yn canfod cyfleoedd i wahanol broffesiynau gofal iechyd gydweithio'n fwy effeithiol drwy addysg a hyfforddiant.
5. Gweithio gyda darparwyr ac eraill i gefnogi a sicrhau arloesedd yn lleol a sicrhau bod sgyrsiau cenedlaethol a lleol yn datblygu 'arferion gorau'.

6. Cefnogi rhaglenni gwaith ar ran AaGIC sy'n cefnogi datblygiadau a mentrau blaenoriaeth.

Rheoli Rhaglenni Ysgolion

Goruchwylio'r gwaith o reoli rhaglenni arbenigedd a rhoi cyngor ar y materion canlynol:

7. Rheoli'r broses cylchdroi gan sicrhau bod gwybodaeth derfynol am gylchdroeon perthnasol i leoliadau sy'n cwmpasu'r 12 mis nesaf o leiaf ar gael i dimau gweinyddol AaGIC 16 wythnos cyn newid i'r cylchdro nesaf er mwyn galluogi AaGIC i gwrdd â dyddiad cau'r Cod Ymarfer, sef 12 wythnos, ar gyfer rhoi gwybod i Fyrddau Iechyd am leoliadau, a chefnogi rhannu gwybodaeth i olrhain eithriadau.
8. Goruchwylio'r gwaith o reoli'r broses cylchdroi arbenigeddau gan sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu neilltuo i leoliadau priodol gan ystyried anghenion cyfun hyfforddeion yn y rhaglen wrth gynllunio hyfforddiant ar gyfer hyfforddeion unigol;
9. Datblygu rhaglen hyfforddiant sy'n addas i'r diben ac o ansawdd uchel mewn ymateb i unrhyw newidiadau i gwricwlwm unrhyw Goleg Brenhinol/Cyfadran, gan sicrhau bod hyfforddeion yn cael mynediad at hyfforddiant addas a fydd yn rhoi cyfle iddynt gyflawni'r gofynion ar gyfer cwblhau hyfforddiant yn foddhaol.
10. Ystyried, adolygu a, pan fo'n berthnasol, cefnogi ceisiadau hyfforddeion am hyblygrwydd yn eu hyfforddiant naill ai drwy Weithio Llai nag Amser Llawn (LTFT), Trosglwyddo Rhwng Deoniaethau a phrofiadau y Tu Allan i'r Rhaglen (OOP), gan sicrhau bod cymorth priodol ar gael i'r unigolion hyn i ddychwelyd i'r hyfforddiant pan fo hynny'n berthnasol.
11. Sicrhau bod anghenion hyfforddeion sy'n dymuno gweithio llai nag amser llawn yn cael eu diwallu pryd bynnag y bo modd, a bod cyfleoedd i rannu swyddi neu weithio llai nag amser llawn mewn swyddi llawn amser yn cael eu trefnu pan fo angen.

Arfarnu ac Asesu

12. Cefnogi AaGIC i baratoi ar gyfer paneli Adolygiad Blynyddol o Ddilyniant Cymhwysedd (ARCP) gan sicrhau bod hyfforddeion yn cael o leiaf chwe wythnos o rybudd o ba bryd y cynhelir eu ARCP
13. Cadeirio paneli ARCP gan sicrhau bod aelodau'r panel yn cael eu briffio'n briodol a bod gwybodaeth a dogfennau sy'n ymwneud â chanlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cwblhau a'u trosglwyddo i dîm gweinyddol AaGIC o fewn pum niwrnod gwaith i'r ARCP
14. Monitro cynnydd a pherfformiad hyfforddeion yn rheolaidd drwy gysylltu â Goruchwylwyr Addysg, Tiwtoriaid Colegau a'r Arweinydd Cymorth Proffesiynol yn ogystal â'r broses ARCP.
15. Rhoi cymorth adferol ar waith ar gyfer unrhyw hyfforddai sy'n cael anhawster, gan weithio gyda'r Arweinydd Cymorth Proffesiynol a'r Uned Cymorth Proffesiynol yn ôl yr angen.
16. Pan fydd gwrandawiadau apêl ARCP yn cael eu cynnull, cynhyrchu Adroddiad AaGIC a darparu tystiolaeth i banel y gwrandawiad annibynnol.
17. Cynrychioli Cymru/AaGIC fel cynrychiolydd allanol ar gyfer ARCP ledled y DU yn ôl y galw
18. Mynd ati'n weithredol i adolygu a monitro data cyrhaeddiad ar draws y rhaglen hyfforddiant gan sicrhau bod strategaethau'n cael eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw feysydd Cyrhaeddiad Gwahaniaethol

Ansawdd a Diogelwch

Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Ysgol i gefnogi'r gwaith o weithredu Fframwaith Rheoli Ansawdd AaGIC a:

19. Pwysleisio pwysigrwydd a hyrwyddo datblygiad amgylchedd dysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr.
20. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosesau rheoli ansawdd, yn debyg i Fframwaith Rheoli Ansawdd AaGIC, ar draws y gweithlu.
21. Cefnogi'r defnydd o hyfforddiant sgiliau clinigol ac efelychu (pan fo hynny'n briodol/yn berthnasol), gan bwysleisio pwysigrwydd gwaith tîm a ffactorau dynol.
22. Gweithio gyda'r Uned Ansawdd a thîm ehangach AaGIC ac addysgwyr lleol (gan gynnwys Arweinwyr Cyfadrannau Lleol a Chyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol) ar faterion hyfforddi a monitro lleol (er enghraifft, monitro canlyniadau mesuradwy o'r rhaglen hyfforddiant gan gynnwys canlyniadau arolwg y Cyngor Meddygol Cyffredinol, data asesu, gwerthusiadau

diwedd lleoliad a ffynonellau gwybodaeth lleol eraill) i wella'r cydweithio rhwng y Darparwyr Addysg Lleol ac AaGIC yng nghyswllt rheoli ansawdd a chryfhau'r gwaith o integreiddio dulliau gweithredu'r Bwrdd Iechyd a'r Arbenigedd.

23. Ymgysylltu â'r Uned Ansawdd i gefnogi adroddiad Blynyddol AaGIC i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Cymorth i Hyfforddeion

24. Sicrhau bod hyfforddeion ar y rhaglen yn cael eu goruchwylio'n briodol a bod unrhyw bryderon sy'n ymwneud â chymhwysedd clinigol a phroffesiynol yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau a phrosesau'r cyflogwr neu AaGIC.
25. Sicrhau bod yr hyfforddeion hynny sy'n methu â symud ymlaen neu sydd, am resymau eraill, angen cymorth ychwanegol, yn cael eu nodi a'u rheoli mewn modd amserol a phriodol, gan weithio gydag Uned Cymorth Proffesiynol AaGIC ac arweinwyr arbenigeddau pan fo hynny'n berthnasol.
26. Sicrhau bod cymorth gyrfa ar gael i hyfforddeion ar y Rhaglen ac i hyfforddeion eraill sy'n awyddus i gael hyfforddiant yn yr arbenigedd

Recriwtio

27. Gweithredu fel arweinydd ar gyfer recriwtio yn ystod y cylch recriwtio cenedlaethol blynyddol ac ar adegau eraill yn ôl y gofyn. Pan fydd recriwtio'n digwydd yn lleol, bod yn gyfrifol am ganfod a recriwtio aelodau i'r panel.
28. Cymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o gynllunio recriwtio ar gyfer y rhaglen hyfforddiant a nodi swyddi gwag yn y dyfodol yn flynyddol, gan roi gwybod i dîm recriwtio AaGIC am nifer y swyddi gwag y bydd angen eu llenwi.
29. Cyfrannu at farchnata'r arbenigedd pan fo angen gwneud hynny, i ddenu ymgeiswyr priodol e.e. cydlynu sesiynau blasu yn ystod hyfforddiant sylfaenol, cynrychiolaeth mewn ffeiriau gyrfaoedd, neu gysylltu ag arweinwyr arbenigeddau ac â Cholegau Brenhinol/Cyfadrannau.

Datblygu'r Gweithlu ac Addysg

Cynghori a chefnogi Pennaeth yr Ysgol yng nghyswllt elfennau datblygu'r gweithlu ac addysg, gan gynnwys:

Datblygiad Proffesiynol y gyfadran addysg

30. Darparu cefnogaeth i oruchwylwyr clinigol ac addysgol yn y rhaglen
31. Canfod anghenion dysgu a chefnogi'r ddarpariaeth o sesiynau datblygu addysgwyr a chyfadrannau (tiwtoriaid Colegau).

Datblygu a Chomisiynu Gweithlu Strategol

32. Cynghori Pennaeth yr Ysgol ar weithgareddau comisiynu a datgomisiynu yn yr arbenigedd.
33. Cymryd rhan ym mhrosesau cynllunio gweithlu AaGIC gan gasglu data lle bo angen i gefnogi penderfyniadau perthnasol i'r gweithlu yn y dyfodol.
34. Cefnogi'r gwaith o weithredu atebion gweithlu amgen yn yr Ysgol.

Addysg a Datblygu Hyfforddeion

35. Sicrhau bod darpariaeth briodol o ddiwrnodau hyfforddiant addysg/datblygu hyfforddeion sy'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd.
36. Sicrhau bod yr holl hyfforddeion yn cael sesiwn gynefino gynhwysfawr i'r arbenigedd a sicrhau bod unrhyw gynefino dilynol i leoliadau o fewn y rhaglen yn digwydd yn brydlon.

Datblygu rôl a dyletswyddau ychwanegol

37. Mynychu cyfarfodydd Ysgol o fewn y strwythur a chyfarfodydd perthnasol eraill gan gyflwyno adroddiadau pan fo hynny'n ofynnol.
38. Cymryd rhan mewn trefniadau lleol a, pan fo hynny'n briodol, trefniadau cenedlaethol (gan gynnwys Pwyllgorau Hyfforddi Arbenigedd) a ddatblygwyd gan y Deon Ôl-raddedig i gefnogi a chynghori ar reoli'r rhaglen(ni) hyfforddi arbenigedd o fewn y ddeoniaeth neu ar draws ffiniau deoniaethau;

39. Ymgymryd â datblygiad proffesiynol a bennwyd ar gyfer y rôl (mynychu diwrnodau hyfforddiant gofynnol, pecynnau e-ddysgu ar-lein, ayb).
40. Cynrychioli'r rhaglen hyfforddiant yng Nghymru yng nghyfarfodydd perthnasol Colegau Brenhinol/Cyfadrannau ac adrodd yn ôl ar ddatblygiadau allweddol.
41. Cynrychioli AaGIC ar wahanol bwyllgorau a gweithio gyda chynrychiolwyr Colegau/Cyfadrannau dirprwyedig (e.e. tiwtoriaid colegau, cynghorwyr rhanbarthol) a hyfforddiant cenedlaethol Colegau/Cyfadrannau neu Bwyllgorau Cynghori ar Arbenigedd i sicrhau bod rhaglenni'n darparu cwricwlwm yr arbenigedd ac yn galluogi hyfforddeion i ennill y cymwyseddau, yr wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r profiad perthnasol.

Adran 3 – Manyleb y Person
Meini Prawf Hanfodol
Sgiliau a Galluoedd
1. Sgiliau arwain a rheoli amlwg
2. Gallu datrys problemau ac agwedd hyblyg ac ymarferol.
3. Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac ar bapur, gan gynnwys sgiliau cwnsela a chysylltu a pharodrwydd i wrando a chydymdeimlo
4. Sgiliau rhyngbersonol gwych
5. Sgiliau trefnu rhagorol
6. Gallu gweithio fel aelod o dîm amlbroffesiwn gan ysgogi a datblygu eraill pan fo hynny'n berthnasol.
Gwybodaeth a diddordeb
7. Meddu ar wybodaeth fanwl a chyfredol o gwricwlwm, portffolio, meini prawf dethol, arholiadau a dulliau asesu eraill yr arbenigedd.
8. Gwybodaeth am strwythurau rheoli a llywodraethu ym maes addysg a hyfforddiant meddygol ac ymwybyddiaeth o newidiadau diweddar yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant meddygol yn genedlaethol ac yn lleol
9. Bod â brwdfrydedd gwirioneddol dros wella'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant meddygol a datblygiad proffesiynol parhaus.
Profiad
10. Contract parhaol cyfredol fel ymgynghorydd GIG yn yr arbenigedd yng Nghymru
11. Profiad o addysgu ym maes addysg uwch
Hyfforddiant/Cymwysterau
12. Aelodaeth o'r Coleg Brenhinol perthnasol.
13. Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a gyflawnwyd yn ystod y 3 blynedd diwethaf
14. Hyfforddiant mewn arfarnu a rhoi adborth
15. Hyfforddiant mewn Dulliau Dethol yn ystod y 3 blynedd diwethaf
Gwerthoedd
16. Ymrwymiad i werthoedd AaGIC